

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN **RHEOLIADAU CASGLU AR Y STRYD**

1. Yn y rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall:-

mae “casgliad” yn golygu casglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu eraill a bydd y gair “casglwyr” yn cael ei ddehongli yn unol â hynny.

mae “hyrwyddwr” yn golygu person sy’n peri i eraill weithredu fel casglwyr;

mae’r “Awdurdod Trwyddedu” yn golygu Cyngor Sir Caerfyrddin;

mae “trwydded” yn golygu trwydded ar gyfer casgliad;

mae “cyfrannwr” yn golygu person sy’n cyfrannu at gasgliad ac mae’n cynnwys rhywun sy’n prynu eitemau sydd ar werth er budd dibenion elusennol neu eraill;

mae “blwch casglu” yn golygu blwch neu gynhwysydd arall ar gyfer derbyn arian oddi wrth gyfranwyr.

2. Ni wneir unrhyw gasgliad ar wahân i gasgliad a gymerir mewn cyfarfod yn yr awyr agored, mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus o fewn Sir Gaerfyrddin oni bai fod hyrwyddwr wedi cael trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu.
3. Gwneir cais am drwydded yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach nag un mis cyn y dyddiad y bwriedir gwneud y casgliad. Ar yr amod y gall yr Awdurdod Trwyddedu leihau’r cyfnod o un mis os yw’n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny.
4. Ni wneir unrhyw gasgliad ac eithrio ar y diwrnod a rhwng yr oriau a nodwyd yn y drwydded.
5. Gall yr Awdurdod Trwyddedu, wrth roi trwydded, gyfyngu’r casgliad i’r fath stryd neu fannau cyhoeddus neu’r fath rannau ohonynt sy’n addas yn ei dyb ef.
6. a) Ni all unrhyw berson gynorthwyo neu gymryd rhan mewn unrhyw gasgliad heb awdurdod ysgrifenedig hyrwyddwr
b) Bydd unrhyw berson sydd wedi’i awdurdodi dan baragraff (1) uchod yn dangos y fath awdurdod ysgrifenedig ar unwaith i’w archwilio pan

ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog â'r awdurdod priodol o'r Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw heddwad.

7. Ni wneir unrhyw gasgliad mewn unrhyw ran o briffordd unrhyw stryd sydd â llwybr troed: Gall yr Awdurdod Trwyddedu, os yw'n credu ei bod yn addas, ganiatáu i gasgliad ddigwydd ar y briffordd ddywededig pan fydd casgliad o'r fath wedi'i awdurdodi i'w gynnal mewn cysylltiad â gorymdaith
8. Ni wneir unrhyw gasgliad mewn ffordd sy'n debygol o achosi anghyfleustra neu annifyrrwch i unrhyw berson.
9. Ni fydd unrhyw gasglwr yn taer-erfyn ar unrhyw berson gan achosi annifyrrwch i'r fath berson.

Rheoliadau

10. Tra bydd yn casglu:-

- a) Bydd casglwr yn aros yn ei unfan, ac
- b) Ni fydd casglwr neu ddau gasglwr gyda'i gilydd yn agosach na 25 metr at gasglwr arall.

Ar yr amod y gall yr awdurdod Trwyddedu, os yw'n credu ei bod yn addas, hepgor gofynnydd y rheoliad hwn mewn perthynas â chasgliad sydd wedi'i awdurdodi i'w gynnal mewn cysylltiad â gorymdaith.

11. Ni fydd unrhyw hyrwyddwr, casglwr neu berson sy'n gysylltiedig fel arall â chasgliad yn caniatáu i berson dan 16 oed weithredu fel casglwr.

Ar yr amod y gall yr Awdurdod Trwyddedu ganiatáu i bersonau sy'n 14 oed neu'n hŷn weithredu fel casglwyr pan fydd yn fodlon bod hyn yn rhesymol dan amgylchiadau casgliad penodol a bod casglwyr dan 16 oed ag oedolyn yn gwmni iddynt.

12.

- a. Bydd pob Casglwr yn cario blwch casglu
- b. Bydd pob blwch casglu wedi'i rifo'n olynol a bydd wedi'i gau a'i selio'n ddiogel mewn ffordd sy'n ei rwystro rhag cael ei agor heb dorri'r sêl.
- c. Bydd yr holl arian y mae casglwr yn ei dderbyn oddi wrth gyfranwyr yn cael ei roi ar unwaith mewn blwch casglu.
- d. Bydd pob casglwr yn danfon, heb ei agor, pob blwch casglu yn ei feddiant i hyrwyddwr.

13. Ni fydd casglwr yn cario neu'n defnyddio unrhyw flwch casglu, cynhwysydd neu badell nad yw'n dwyn, wedi'i arddangos mewn lle amlwg arni enw'r elusen neu'r gronfa a fydd yn elwa nac unrhyw flwch casglu nad yw wedi'i rifo'n briodol.

14.

- a. Yn amodol ar baragraff (2) isod bydd blwch casglu yn cael ei agor ym mhresenoldeb hyrwyddwr a pherson cyfrifol arall.

- b. Pan fydd blwch casglu wedi'i ddanfon heb ei agor i fanc, gellir ei agor gan Swyddog y banc
- c. Cyn gynted ag y bydd blwch casglu wedi'i agor, bydd y person sy'n ei agor yn cyfrif y cynnwys ac yn cofnodi'r swm ynghyd â rhif y blwch casglu mewn rhestr a fydd yn cael ei hardystio gan y person hwnnw.

15.

- a) Ni roddir taliad i unrhyw gasglwr
- b) Ni roddir taliad o enillion casgliad naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â hyrwyddo neu gynnal y fath gasgliad am, neu mewn perthynas â gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag ef, ac eithrio taliadau y gellid bod wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu.

16. 1) o fewn un mis ar ôl dyddiad y casgliad bydd y person y rhoddwyd trwydded iddo yn anfon ymlaen at yr Awdurdod Trwyddedu:-

- a. Datganiad yn dangos y swm a dderbyniwyd a'r treuliau a'r taliadau a wnaed mewn cysylltiad â'r fath gasgliad ac wedi'i ardystio gan y person hwnnw a chyfrifydd cymwys.
- b. Rhestr o'r casglwyr
- c. Rhestr o'r symiau a gafwyd ym mhob blwch casglu.

A bydd, os mynnir gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn ei fodloni ynglŷn â'r defnydd priodol o enillion y casgliad.

Yn cyhoeddi yn y fath bapur newydd neu bapurau newydd yn ôl cyfarwyddyd yr Awdurdod Trwyddedu datganiad yn dangos enw'r person y rhoddwyd y drwydded iddo, yr ardal y mae'r drwydded yn ymwneud â hi, enw'r elusen neu'r gronfa a fydd yn elwa, dyddiad y casgliad, y swm a gasglwyd a swm y treuliau a'r taliadau a wnaed mewn cysylltiad â'r fath gasgliad.

2) Gall yr Awdurdod Trwyddedu, os yw'n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny ymestyn y cyfnod o un mis y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod.

3) At ddiben y Rheoliad hwn mae "cyfrifydd cymwys" yn golygu aelod o un o'r cyrff canlynol:-

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;

Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig;

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon

17. Ni fydd y rheoliadau hyn yn berthnasol:-

- a. Mewn perthynas â chasgliad a gymerwyd mewn cyfarfod yn yr awyr agored, neu
- b. I werthu eitemau mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus pan fydd yr eitemau'n cael eu gwerthu fel rhan o fasnach arferol.

18. Bydd unrhyw berson sy'n gweithredu'n groes i unrhyw un o'r rheoliadau blaenorol yn agored drwy gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na phum deg o bunnoedd neu yn achos ail drosedd neu drosedd ddilynol heb fod yn fwy na phum deg o bunnoedd.

NODYN

Mae'r Swyddfa Gartref wedi tynnu sylw at y peryglon posibl sy'n bodoli pan ddefnyddir bagiau polythen yn ystod casgliadau eiddo ac mae'r Adran Prisiau a Diogelu Defnyddwyr wedi pwysleisio'r peryglon sy'n bodoli ac yn awgrymu camau y gellir eu cymryd i leihau'r risg bosibl o fygu oherwydd y bagiau hyn. Mae'r risg yn gysylltiedig â thrwch y ffilm y gwnaed y bagiau ohoni a deallir bod Cymdeithas Gwneuthurwyr Ffilm Becynnu yn annog gwneuthurwyr i sicrhau, cyhyd ag y bo modd, fod cyrff sy'n prynu bagiau ar gyfer casglu o dŷ i dŷ yn cael eu cyflenwi â bagiau sydd o leiaf 150 o drwch (1.5 milfed ran o fodfedd o drwch). Bernir bod bagiau o'r trwch hwn yn weddol ddiogel. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y gellir lleihau risg mygu drwy roi tyllau yn y bagiau.